Cwestiynau Cyffredin am gyrbiau gostngedig

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth dyfynbrisio ac adeiladu os oes angen gostwng y cyrb o flaen eich eiddo er mwyn cael mynediad at eich tir neu ddreif.

Os ydych yn ystyried adeiladu mynediad i'r eiddo i alluogi cerbyd domestig neu gerbyd nwyddau ysgafn tebyg groesi dros y llwybr troed, bydd angen i chi wneud cais i Adran Priffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am gymeradwyaeth.
Codir taliad ardoll o £80 gan yr Adran Priffyrdd ar gyfer ystyried cais am fynediad cerbyd i'r briffordd

Os yw'r eiddo yn cael ei rhentu (e.e. gan y Gymdeithas Dai) bydd hefyd angen cael eu caniatâd nhw i gymryd cerbyd i mewn i'r ardd.

A oes angen cyrb gostyngedig arnaf?
Os yw'n fwriad gennych yrru cerbyd dros lwybr troed i fewn i'ch dreif oddi ar y briffordd, yna bydd angen cyrb gostyngedig arnoch. Os nad oes gennych gyrbiau gostyngedig, ni ddylech yrru dros y llwybr troed. Os y gwnewch hynny, byddwch yn torri'r gyfraith a gellir dwyn gweithred orfodol yn eich erbyn i atal arferiad o'r fath. Ymhellach, mae'n bosibl y byddwch yn dyfod yn atebol am unrhyw ddifrod i'r arwyneb neu is-ffurfiad y llwybr troed neu unrhyw wasanaethau a gaiff eu difrodi o ganlyniad i'r gweithredu hwn.

Sut ydw i'n gwneud cais am gyrb gostyngedig?
Gellir gwneud cais am ffurflen gais drwy gwblhau'r Ffurflen Cais am Gyrb Gostyngedig a thalu £80.

Mae'n bosibl y bydd angen Caniatâd Cynllunio arnoch. Gwiriwch (gweler 'A oes angen Caniatâd Cynllunio Arnaf?').

Neu gellir gwneud cais am ffurflen gais drwy Ganolfan Alw'r Priffyrdd ar 01685 724939.
Cewch eich hysbysu os bydd unrhyw broblemau yn gysylltiedig â'r groesfan.

Gwasanaeth dyfynbris
Yn dilyn gwneud cais, bydd swyddog yn ymweld â'r eiddo i wneud y mesuriadau priodol. Ymhen 14 diwrnod bydd gwybodaeth yn cael ei bostio ar ffurf dyfynbris ysgrifenedig yn manylu ar gyfanswm y gost a'r dulliau talu.

Faint fydd e'n ei gostio?
Mae cost o £80 am wneud cais.

Mae'r gost o adeiladu yn dibynnu ar arwynebedd y llwybr troed a mynediad at y dreif a ddefnyddir Bydd y dyfynbris am adeiladu yn dibynnu ar eich anghenion penodol.
Fel canllaw, byddai cost arferol ar gyfer estyniad 5-cyrb gyda llwybr troed o led nad yw'n fwy na 2 fetr (6 troedfedd) yn **£750 heb gynnwys TAW**.

Pa waith sy'n gynwysedig yn y pris?

Bydd unedau is yn cymryd lle'r cyrbiau a chyrb pontio bob ochr i'r groesfan ar gyfer yr adeiladwaith newydd. Pan fo croesfan yn bodoli eisoes, caiff hon ei hehangu ble y bo'n briodol. Bydd y groesfan yn cael ei chloddio a'i hailadeiladu i ddiogelu'r holl wasanaethau sydd islaw'r arwyneb rhag unrhyw ddifrod a'i dylunio fel ei bod yn cynnal cerbydau nwyddau ysgafn neu breifat neu debyg.
(Estyniad i groesfan sy'n bodoli eisoes. Cyrb pontio a chyrb is)

Sut ydw i'n talu am y groesfan?
Byddwch yn derbyn anfoneb, a byddwch yn dychwelyd siec wedi ei gwneud yn daladwy i: Priffyrdd CBSMT a'i dychwelyd i'n hadran daliadau.
Peidiwch ag anfon Arian Parod drwy'r Post

Pryd fydd yr Adeiladu'n dechrau?
Ar ôl derbyn taliad a'i glirio a bod hysbysiad electronig wedi ei wneud i'r Adran Briffyrdd, caiff y gwaith adeiladu ei ychwanegu at y rhaglen groesfannau. Pan fydd ar y rhaglen, bydd ei safle yn osodedig. Does **DIM** blaenoriaethu nac opsiynau i gyflymu'r broses. O'r pwynt hwnnw, bydd gwaith yn dechrau unrhyw bryd hyd at 28 diwrnod.

Pa mor Hir fydd y Gwaith yn ei Gymryd?
Bydd y gwaith adeiladu dros gyfnod o 3 i 5 niwrnod.
Gallwch dracio'r gwaith adeiladu a chael amcangyfrif o ddyddiad dechrau drwy gysylltu â:
Highways@merthyr.gov.uk

Ydw i'n cael defnyddio fy adeiladwr fy hun?
Mae'n bosibl defnyddio eich adeiladwr eich hun ond rhaid iddynt fodloni'r meini prawf isod:

- Mae'r contractwr wedi ei achredu'n gyflawn fel staff NRSWA
- Yswiriant Atebolrwydd y Cyhoedd, o leiaf £10,000,000 (miliwn o bunnoedd)
- Ffurflen Gais ac Hysbysiad Agor Priffordd, pris trwydded agor yw **£68.00**
- Caniatâd cynllunio ble y bo'n gymwys
- Meddu ar fanylion safonau croesfan cerbyd oddi wrth yr awdurdod priffyrdd
- Lluniau cyflawn o ran gwasanaethau'r lleoliad
- Cydymffurfio â holl ganllawiau pennod 8 ar gyfer gwaith i Dir Priffordd

A gaf i ymgymryd â'r gwaith fy hun?
Mae'n bosibl ymgymryd â'r gwaith eich hun ar yr amod eich bod yn cydymffurfio â'r meini prawf isod:

- Mae achrediad NRSWA cyflawn gennych
- Yswiriant Atebolrwydd y Cyhoedd: o leiaf £10,000,000 (miliwn o bunnoedd)
- Hysbysiad Agor Priffordd a ffurflen gais, cost trwydded agor yw **£68.00**
- Caniatâd cynllunio ble y bo'n gymwys
- Meddu ar fanylion safonau croesfan gerbyd oddi wrth yr awdurdod priffyrdd
- Lluniau cyflawn o ran gwasanaethau'r lleoliad
- (cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cysylltu â'r gwasanaethau statudol cyn dechrau ar y gwaith)

- Eich bod yn cydymffurfio â holl ganllawiau pennod 8 ar gyfer gwaith i Dir Priffordd

A yw'r Cyngor yn adeiladu dreifiau preifat oddi fewn i eiddo?
Nac ydy.
Gellir dod o hyd i gontractwyr yn y papur lleol, Yellow Pages neu gyfeirlyfr lleol Thomson.

A oes angen i mi gael caniatâd cynllunio?
Cyn cyflwyno cais am ddyfynbris rhaid i chi bennu a yw'r ffordd gyfagos yn:

- Gefnffordd
- Prif Ffordd
- Ffordd Ddosbarthiadol – Dosbarth 1 neu Ddosbarth 2
- Diddosbarth
- Ffordd sydd heb ei mabwysiadu

Gwiriwch â Gweithrediadau Peirianneg a Phriffyrdd ar 01685 724936
Os yw'r groesfan gerbydau i'w lleoli ar **Brif Ffordd,** neu **Ffordd Ddosbarthiadol** yna rhaid cael caniatâd cynllunio drwy'r awdurdod cynllunio. Codir tâl am y gwasanaeth hwn.

Ar Gefnffyrdd mae angen caniatâd cynllunio ar geisiadau o'r fath, ond byddai'n cael ei gyfeirio at SWTRA, Cyswllt:- **0300 123 1213**

Os yw eich eiddo gyfagos â **Ffordd Ddiddosbarth,** nid oes angen caniatâd cynllunio.

Os yw eich eiddo cyfagos â **Ffordd sydd heb ei mabwysiadu,** nid oes angen cael caniatâd cynllunio. Gallwch fynd ati i wneud ymholiadau am gais.

Noder
· Mae'n bosibl y bydd gan ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu a ffyrdd ddiddosbarth, Hawddfraint Tir, Hawliau Tramwy, Teitl i'r Tir neu faterion Perchnogaeth. **Ni fydd CBSMT yn gyfrifol yn llwyr nac yn rhannol am unrhyw faterion/unrhyw beth sy'n groes i faterion tir neu berchnogaeth tir cyn gosod nac ar ôl gosod.**

Mae'r meddiannwr/preswylydd yn gwbl gyfrifol am y cyfarwyddyd a roddir isod.

Ymgynghorwch â'ch cyfreithiwr i gael eglurhad o'r uchod.

A ellir gwrthod rhoi croesfan i mi?
Gellir gwrthod gosod croesfan i chi a gall rhesymau fod yn unigolyddol iawn i'r lleoliad hwnnw.

Gallai'r pwyntiau isod wahardd neu gynnig arweiniad at groesfan cwrb gostyngedig arfaethedig:

- Mae eich eiddo ar droad neu wrth gyffordd ffordd
- Mae coeden wrth y groesfan arfaethedig
- Gallai dodrefn stryd neu lamp stryd rwystro mynediad

- Mae eich eiddo yn agos at signalau traffig
- Ceir llethr serth rhwng eich eiddo a'r ffordd
- Nid oes digon o ardd gennych i barcio ynddi
- Nid oes digon o weledd

Os caiff eich cais ei wrthod byddwch yn derbyn llythyr yn datgan y rheswm pam ei fod wedi ei wrthod ac mae hawl gennych i apelio i'r Awdurdod.

Pwy sydd berchen ar y groesfan ar ôl ei chwblhau?
Pan fydd CBSMT yn adeiladu croesfan gerbydau nid yw hynny'n rhoi'r hawl gyfreithiol i breswylydd yr eiddo at berchnogaeth o'r tir na thrwydded i heddlua'r groesfan honno nac unrhyw rwystr i'w chyflwr presennol. Mae'r groesfan yn parhau'n rhan o'r briffordd gyhoeddus ac felly mae ar gael at ddefnydd y cyhoedd. CBSMT sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r groesfan.

Fodd bynnag, mae eich croesfan newydd yn darparu hawliau derbyniol cyflawn i chi o ran gyrru ar draws y llwybr troed/tir y briffordd er mwyn cael mynediad at eich eiddo (neu eiddo eich landlord), neu ddefnydd o'r tir a ddatblygwyd ac yr ystyrir ei fod yn addas ar gyfer parcio oddi ar y ffordd.

Pa fath o gerbydau gellir eu defnyddio ar y groesfan?
Gellir defnyddio croesfan cyrb cerbyd domestig ar gyfer cerbyd nwyddau ysgafn neu gerbyd tebyg yn unig. Ni ellir ei defnyddio'r groesfan gan gerbyd newyddau trwm nac unrhyw ffurf o offer mecanyddol. Os bydd sgip neu rywbeth tebyg yn cyrraedd yr eiddo ac yn difrodi'r groesfan wrth wneud hynny, bydd unrhyw atgyweiriadau i'r groesfan yn gyfrifoldeb i'r perchennog/ preswylydd.

A oes unrhyw gymorth ar gael ar gyfer talu am y gosod?
Nac oes, yn anffodus.

A oes yna unrhyw ystyriaethau cyfreithiol?
Ni all gatiau nac unrhyw rwystrau eraill ar draws mynediad cerbydau i'ch eiddo neu dir, agor tuag allan o dan unrhyw amgylchiadau, ar draws llwybr troed na cherbytffordd. (Deddf Priffyrdd 1980 – Adran 53).

Mae'n bosibl y bydd angen i unrhyw dir nad yw'n Briffordd ddynodedig, ddiddosbarth neu ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu gael Hawddfraint Tir Cyfreithiol os yw'r cyrb gostyngedig yn croesi'r tir hwnnw. Mae'n bosibl y bydd Teitl y Tir, Hawliau Tramwy neu faterion Perchnogaeth hefyd yn gorfod cael eu hystyried.

Ymgynghorwch â'ch cyfreithiwr i gael eglurhad o'r uchod. **Ni fydd CBSMT yn gyfrifol yn llwyr nac yn rhannol am unrhyw faterion/unrhyw beth sy'n groes i faterion tir neu berchnogaeth tir cyn gosod nac ar ôl gosod.**

Mae'r meddiannwr/preswylydd yn gwbl gyfrifol am y cyfarwyddyd a roddir i osod.
Cysylltwch â'ch cyfreithiwr i gael eglurhad o'r uchod.

Deil y Cyngor ar yr hawl i addasu eich cyrb gostyngedig yn y dyfodol i gymhwyso cyrbiau gostyngedig eiddo cymdogol neu unrhyw ailwampiad i'r Briffordd y mae'r Cyngor yn ystyried sy'n briodol.

Os ydych chi neu Gontractwr yn cyflawni'r gosod, rhaid i chi ofyn am ganiatâd arbennig i gloddio, a gwneud cais am Hysbysiad Agor. Adran 171 Deddf Priffyrdd 1980.

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council